

CBDC | PÊL-DROED AR RADDFA LAI

CYFLWYNIAD

Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru ("CBDC") yn cydnabod nad yw plant yn perfformio fel y mae oedolion yn ei wneud mewn gêm 11 bob ochr. Felly, mae angen fersiwn wedi'i haddasu i ddiwallu anghenion datblygiadol chwaraewyr ifanc, wrth gynnal holl elfennau a hanfod y gêm iawn. Mae Pêl-droed ar Raddfa Lai yn cael ei chydnabod gan CBDC fel yr unig fath o bêl-droed yng Nghymru ar gyfer plant dan 11 oed (ac ar gyfer plant dan 12 o dymor 2021/2022 a phlant dan 13 o dymor 2022/2023).

BETH YW PÊL-DROED AR RADDFA LAI?

Fersiwn wedi'i haddasu o'r gêm 11 bob ochr yw Pêl-droed ar Raddfa Lai. Mae'n rhoi cyfle i blant chwarae pêl-droed go iawn, chwarae i dîm go iawn, ac mae'n gyflwyniad hwyliog i bêl-droed trwy gemau ar raddfa lai.

DIWALLU ANGHENION PLANT

Mae'r holl ymchwil sydd ar gael yn dangos bod plant yn cael mwy o huyl ac yn dysgu mwy wrth chwarae mewn timau llai. Felly mae Pêl-droed ar Raddfa Lai yn ddelfrydol ar gyfer bechgyn a merched er mwyn iddynt fwynhau i'r eithaf, yn ogystal â chynyddu eu datblygiad technegol/sgiliau.

OS YW PLANT AM FWYNHAU A CHYMRYD RHAN MEWN PÊL-DROED, MAE ANGEN IDDYNT:

- Chwarae rhan weithredol yn y gêm, a mwynhau eu hunain heb bwysau gan rieni, hyfforddwyr na rheolwyr.
- Dysgu chwarae mewn tîm.
- Deall a dilyn rheolau pêl-droed.
- Datblygu'r sgiliau a'r technegau i chwarae pêl-droed.
- Gallu cymryd rhan waeth beth fo'u gallu.
- Cael digon o gyswllt â'r bêl.

GWERTHOEDD CREIDDIOL PÊL-DROED AR RADDFA LAI

Mae Pêl-droed ar Raddfa Lai yn gêm ar gyfer bechgyn a merched rhwng 5 ac 11 oed (5 i 12 oed o dymor 2021/2022 a rhwng 5 a 13 oed o dymor 2022/2023) o bob gallu sydd â diddordeb mewn pêl-droed. Mae CBDC yn credu y dylai plant ddysgu sut i gystadlu i ennill yn deg, yn fedrus a chan ddilyn rheolau'r gêm. Yn yr oedran hun, mae'r ymdrech yn bwysicach na'r canlyniad.



MAE PÊL-DROED AR RADDFA LAI YN:

- Cydnabod nad yw plant yn perfformio ac yn cystadlu ar yr un lefel ag y mae oedolion yn ei wneud, ac felly mae ei rheolau wedi'u haddasu i ddiwallu anghenion plant.
- Cynnwys holl elfennau pêl-droed go iawn i blant.
- Cydnabod gwerth yr elfen gystadleuol i blant, ac yn darparu amgylchedd priodol.
- Gosod safon a fframwaith ar gyfer ymddygiad ar y cae, yn ogystal ag oddi ar y cae.
- Agored i fechgyn a merched waeth beth fo'u gallu.

DATBLYGU SGILIAU

- Mae mwy o gyswllt â'r bêl mewn Pêl-droed ar Raddfa Lai, sydd yn ei dro yn arwain at well techneg. Mewn gêm 11 bob ochr, mae'r gymhareb pêl i chwaraewyr oddeutu 1:20. Oherwydd bod llai o chwaraewyr mewn Pêl-droed ar Raddfa Lai, mae gan bob chwaraewr gyswllt mwy rheolaidd â'r bêl. Mae mwy o gyswllt â'r bêl yn helpu chwaraewyr i ymarfer techneg a datblygu techneg yn sgiliau un-i-un.
- Mae'n haws gwneud penderfyniadau, ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau yn amlach oherwydd y niferoedd. O ganlyniad, bydd y chwaraewyr yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r gêm. Mae'r sefyllfaoedd cyffredinol sy'n codi mewn gêm yn haws eu gweld ac yn symlach i'w datrys.
- Gan nad yw'r bêl fyth yn rhy bell i ffurdd o'r chwaraewr ar unrhyw adeg, mae mwy o gyfleoedd i ddatblygu'r gallu i ganolbuwyntio. Wrth chwarae pêl-droed 11 bob ochr, mae llawer o blant yn colli diddordeb yn y gêm gan nad ydynt yn dod i lawer o gysylltiad â'r bêl a gallant ddechrau teimlo fel eu bod yn guyllo yn hytrach nag yn chwarae.
- Bydd llai o chwaraewyr, mwy o le, a phenderfyniadau symlach yn annog mwy o chwaraewyr i symud, waeth beth fo'r sefyllfa.
- Mae mwy o gyswllt yn arwain at fwy o gyfraniad ac, fel arfer, mwy o fuwynhad. Mae llwyddo yn dod yn haws.

MAE PÊL-DROED AR RADDFA LAI YN SAIL I BOB MATH O BÊL-DROED

Mae gemau pêl-droed ar raddfa lai wedi cael eu chwarae ers canrifoedd ar ein strydoedd, ar gaeau chwarae, neu ar draethau, ac mae llawer o dimau proffesiynol yn eu defnyddio fel sail ar gyfer eu hyfforddiant. Maent fel arfer yn arwain at sefyllfaoedd pêl-droed cyffredin, fel, 1 yn erbyn 1, 2 yn erbyn 2 a 3 yn erbyn 3. Mae Pêl-droed ar Raddfa Lai, oherwydd y tempo deinamig, yn golygu ymarfer corff mwy egnïol na phêl-droed 11 bob ochr, ac felly'n mae'n ffordd i wella cydrannau craidd ffitrwydd plant – cyflymder, ystwythder, cydbwysedd a chydymud.

TREFNIADAU PÊL-DROED AR RADDFA LAI

Nod cyffredinol Pêl-droed ar Raddfa Lai yw darparu amgylchedd diogel, dan oruchwyliath i blant allu mwynhau'r gêm.

1. ARWYNEBEDD CHWARAE

- 1.1 Gellir gosod caeau Pêl-droed ar Raddfa Lai ar unrhyw fannau agored addas neu ar feysydd glaswellt confensiynol neu rai artiffisial y gellir eu haddasu.
- 1.2 Rhaid sicrhau nad oes unrhyw ddarnau mân na pheryglon naill ai ar y cae chwarae nac yn yr ardal gyfagos.
- 1.3 Rhaid gosod marciau trwy ddefnyddio llinellau confensiynol, disgiau marcio



neu gonau bach

2. OFFER CHWARAE

- 2.1 Rhaid i blant wisgo esgidiau sy'n addas i'r arwyneb y maen nhw'n chwarae arno.
- 2.2 Rhaid i bob plentyn wisgo gwarchodwyr crimogau (*shin guards*) addas.
- 2.3 Rhaid peidio â gwisgo gemwaith.

3. TREFNU GEMAU, GWYLIAU, A DYDDIAU HWYL

- 3.1 Cred Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) bod gemau Pêl-droed ar Raddfa Lai yn cyflwyno plant i'r syniad o gystadlu. Mae'r gêm ei hun yn her i ddatblygu sgiliau plant.
- 3.2 O ganlyniad, ni ddylid trefnu unrhyw gystadlaethau cynghrair na chwpan sy'n cynnwys chwaraewyr yn y grŵp oedran dan 11 oed.
- 3.3 Dan 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 – mae gemau'n cael eu chwarae ar ffurf gwyl gydag o leiaf bedwar tîm yn chwarae meun un lleoliad. Dylai Cynghreiriau a Hyfforddwyr sicrhau bod egwyl ddigonol rhwng gemau.
- 3.4 Dan 12 a 13 - mae gemau'n cael eu chwarae ar sail 'Gartref ac Oddi Cartref', yn unol â phenderfyniad y Gynghrair Iau sy'n trefnu.
- 3.5 Gellir trefnu cystadlaethau cynghrair a chwpan ar gyfer fformat Pêl-droed ar Raddfa Lai 9 yn erbyn 9, lle mae plant o flynyddoedd academaidd saith (7) ac wyth (8) yn cymryd rhan. Er mwyn bod yn glir, os yw cynghreiriau'n gweithredu band oedran dwy flynedd, a bod gêm 9 yn erbyn 9 yn cynnwys chwaraewr Blwyddyn 6, rhaid i'r fformat fod yn anghystadleuol.
 - 3.5.1 Ar gyfer y grŵp dan 12 oed, gall Cynghreiriau Iau drefnu uchafswm o bedwar (4) digwyddiad tlws y tymor dros gyfnodau pedair (4) wythnos (cyfanswm o un ar bymtheg (16) wythnos o gystadlu ffurfiol) yn nhymor 2021/22.
 - 3.5.2 Ar gyfer y grŵp dan 13 oed, gall Cynghreiriau Iau drefnu uchafswm o bedwar (4) digwyddiad tlws y tymor dros gyfnodau pedair (4) wythnos (cyfanswm o un ar bymtheg (16) wythnos o gystadlu ffurfiol) yn nhymor 2022/23.
 - 3.5.3 Gallai digwyddiadau tlws fod yn gystadlaethau Cynghrair neu Gwpan, yn ôl penderfyniad y Cynghreiriau Iau.

4. STRWYTHUR TYMOR

- 4.1 Gall cynghreiriau drefnu calendr o gemau a gaiff gychwyn ym mis Awst, ond dylent ddod i ben erbyn 30 Mehefin fan bellaf.
- 4.2 Gall cynghreiriau roi egwyl yn y gaeaf, neu gynnig math arall o bêl-droed fel Ffutsal.

5. DIWYLLIANT POSITIF AR DDIWRNOD GÊM

- 5.1 Mae CBDC eisiau gwella diwylliant ar ddiwrnod gêm, yn ogystal ag ymddygiad rhieni, hyfforddwyr a gwarcheidwaid oddi ar y cae. Fel rhan o'r ymgyrch, rhaid cyflwyno'r arferion canlynol:
 - 5.1.1 Gwahardd ysmegu ar ochr y cae.
 - 5.1.2 Annog gwylwyr i fod yn gefnogol, ac i gymeradwyo a chanmol ymdrechion y ddau dîm, yn ogystal â pheidio â gweiddi, galw allan mewn ffordd negyddol na cheisio hyfforddi.
 - 5.1.3 Gall hyfforddwyr gefnogi chwaraewyr trwy ofyn cwestiynau sy'n eu cymell i feddwl drostynt eu hunain, ond ni ddylent weiddi cyfarwyddiadau drwy gydol gemau.
 - 5.1.4 Dylai pob chwaraewr yn y garfan gael o leiaf 50% o amser chwarae wrth gymryd rhan mewn gemau.



- 5.1.5 Er mwyn helpu i roi cyfleoedd chwarae digonol, ac i dyfu'r gêm, anogir clybiau i roi mwy nag un tîm ymlaen os yw hynny'n ymarferol bosibl. Ni ddylai timau gynnwys mwy na dwbl y chwaraewyr â'u priod grwpiau oedran (er enghraifft, dylai'r grŵp dan 8 oed sy'n chwarae'r fformat 5 yn erbyn 5 fod ag uchafswm o 10 chwaraewr i bob tîm).
- 5.1.6 Dylai holl aelodau'r garfan elwa o'r profiad o chwarae ym mhob safle, gan gynnwys safle'r gôl-geidwad ar gyfer y grwpiau dan 8 i dan 11 oed.
- 5.1.7 Lle bod diffyg chwaraewyr mewn tîm, ac nad oes modd dod o hyd i ddigon o chwaraewyr, dylai'r tîm arall ddarparu chwarae(wr/wyr), neu dynnu chwarae(wr/wyr) oddi ar eu tîm eu hunain er mwyn cael niferoedd cyfartal. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer y grwpiau dan 6 i dan 11 oed.
- 5.1.8 'Tu ôl i'r Llinell, Tu ôl i'r Tîm' Mae'n rhaid i glybiau/cynghreiriau:
- Creu 'parth diogel' sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r cae, yn ddelfrydol 2 fetr o'r ddwy ystlys. Caniateir parth llai lle nad yw'r gofod yn caniatáu 2 fetr.
 - Dylid nodi'r parthau hyn gyda chonau neu linellau ychwanegol.
 - Dim ond chwaraewyr, hyfforddwyr dynodedig a swyddogion Cymorth Cyntaf a ganiateir yn y parth.
 - Rhaid i bob gwylwr arall wyllo o'r tu ôl i linellau'r parth.
 - Ni chaniateir i wylwyr sefyll ar linell y gôl na'r tu ôl i'r gôl.

6. CYNIGION PÊL-DROED ERAILL

- 6.1 Rhaid i bob fformat o'r gêm sy'n cynnwys chwaraewyr o oedran Pêl-droed ar Raddfa Lai ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y ddogfen hon (e.e. Ffutsal, pêl-droed cerdded).

7. PENIO'R BÊL / CYFERGYD (*CONCUSSION*)

- 7.1 Anaml y ceir penio mewn gemau sy'n cynnwys chwaraewyr 11 oed ac iau. Dylai hyfforddwyr barhau i roi puyslais ar ddriblo, pasio, cadw'r bêl ac adeiladu o'r cefn. Er mwyn lleihau ymhellach yr achosion o benio, dylai hyfforddwyr annog ciciau o'r gornel a chiciau o'r smotyn sy'n aros yn is nag uchder y pen. Mae rheolau newydd wedi'u cyflwyno yn y ddogfen hon i leihau ymhellach faint o amser mae'r bêl yn yr awyr (fel pasio'r bêl yn hytrach na'i thafli i mewn ar gyfer y grŵp dan 9 oed ac iau, ac ni chaiff gôl-geidwad dan 11 oed gicio'r bêl o'u dwylo mwyach).
- 7.2 I chwaraewyr dan 12 a 13, gall penio ddod yn fwy tebygol mewn gêm. Fodd bynnag, dylai hyfforddwyr barhau i annog arddull chwarae sy'n cyfyngu ar basio hirach yn yr awyr.
- 7.3 Ni ddylai ymarferion penio fod yn rhan o hyfforddiant ar gyfer plant 11 oed ac iau.
- 7.4 Mae ymarferion penio yn flaenoriaeth isel i blant dan 12 a 13 oed. Wrth gyflwyno'r dechneg benodol o benio ar gyfer yr oedrannau hyn, mae CBDC yn argymhell: uchafswm o 10 munud mewn unrhyw sesiwn hyfforddi ac uchafswm o 4 peniad mewn un pwl, gan drin y bêl eu hunain dros bellteroedd byr.
- 7.5 Rhaid i'r bêl fod o faint, pwysau, a phwysedd addas ar gyfer oedran y chwaraewyr.
- 7.6 Pe bai amheuaeth fod chwaraewr yn dioddef o anaf i'w ben, rhaid peidio â



chaniatáu iddo barhau i chwarae, a dylai'r hyfforddur gynghori'r rhiant / gwarcheidwad i geisio cyngor meddygol. Mewn achos o gyfergyd, dilynuch y patrwm CYDNABOD, ADRODD a'u TYNNU ODDI AR Y CAE, a dilynuch y canllawiau perthnasol.

RHEOLAU PÊL-DROED AR RADDFA LAI

Mae'r rheolau yn syml, ac yn glynu mor agos wrth reolau pêl-droed go iawn ag sy'n bosibl. Rhaid i arweinydd gêm, sy'n cael ei annog i fod mor hyblyg â phosib gyda'r chwaraewyr, oruchwylio'r gêm o'r llinell ystlys ar gyfer y grŵp dan 11 oed ac iau. Er mwyn bod yn glir, ni ddylai unrhyw un fod yn gweinyddu'r gêm ar y cae. Caiff dyfarnwr ei gyflwyno ar gyfer y grŵp dan 12 oed (y fformat 9 yn erbyn 9).

Esbonnir y rheolau wrth i'r gêm fynd rhagddi (e.e. llawio'r bêl). Mae'n bosibl y bydd angen dangos meun rhai achosion sut i ailgychwyn y gêm (e.e. taflad i meun, neu gic gornel).

1. CHWARAEWYR SY'N GYMWYS

- 1.1 Mae Pêl-droed ar Raddfa Lai ar gyfer bechgyn a merched ym mlynnyddoedd academaidd un (1) i chwech (6). (O dymor 2021/2022 Blynnyddoedd Academaidd un (1) i saith (7) ac o dymor 2022/2023 Blynnyddoedd Academaidd un (1) i wyth (8)).
- 1.2 Gall Cymdeithas Ardal ymestyn cumpas a chymhwysiad y Rheoliadau Pêl-droed ar Raddfa Lai i gynnuys Blwyddyn Academaidd saith (7) ac wyth (8) (cyfeiriwch at Adran H o Reolau'r CBDC). Ar gyfer y fformat a'r rheolau ar gyfer Blwyddyn Academaidd 7 ac 8 cyfeiriwch at gymal 15. (Pêl-droed 9 yn erbyn 9 Pêl-droed ar Raddfa Lai) yn y rheoliadau hyn.
- 1.3 Caniateir pêl-droed cymysg (bechgyn a merched yn chwarae gyda'i gilydd) ar gyfer Blynnyddoedd Academaidd un (1) i wyth (8).

2. GRWPIAU OEDRAN

- 2.1 Rhaid cynnuys isafswm o un flwyddyn academaidd ac uchafswm o dduw flynedd academaidd.
- 2.2 Rhaid i chwaraewr Pêl-droed ar Raddfa Lai gymryd rhan yn y grŵp oedran sy'n berthnasol i'w flwyddyn academaidd fel y'i diffinnir gan y rheoliadau hyn a struythur y gynghrair y mae'n chwarae ynddi.
- 2.3 At ddibenion grwpiau oedran, mae blwyddyn academaidd yn cychwyn ar 1 Medi ac yn gorffen ar 31 Awst y flwyddyn ganlynol. Blwyddyn academaidd un (1) yw'r flwyddyn y mae chwaraewr yn dathlu ei ben-blwydd yn 6 oed.

3. MAINT TÎM, MAINT MAES CHWARAE, MAINT PÊL, MAINT GÔL, A HYD Y CHWARAE

- 3.1 Mae'n rhaid dilyn y canllawiau isod.

Grŵp Oedran	Nifer y Chwaraewyr (uchafswm nifer y chwaraewyr ym mhob tîm)	Gôl Geidwad/ Dim Gôl Geidwad	Maint y Maes Chwarae (hyd x lled)	Ardal y Gôl (hyd x lled)	Maint y Bêl	Maint y Gôl (uchder x lled)	Uchafswm Hyd y Chwarae	Uchafswm Hyd y Gêm
-------------	--	------------------------------	-----------------------------------	--------------------------	-------------	-----------------------------	------------------------	--------------------



Dan 6	4 yn erbyn 4	Dim GG	28 x 20 llath	Dim ardal gôl	3	Uchder: Lleiaf 3 tr Uchaf 4 tr / Lled: Lleiaf 4 tr Uchaf 6 tr	40 mun	10 mun
Dan 7	4 yn erbyn 4	Dim GG	28 x 20 llath	Dim ardal gôl	3	Uchder: Lleiaf 3 tr Uchaf 4 tr / Lled: Lleiaf 4tr Uchaf 6 tr	40 mun	10 mun
Dan 8	5 yn erbyn 5	GG	35 v 25 llath	7 x 12 llath	3	4 x 8 tr	50 mun	15 mun
Dan 9	5 yn erbyn 5	GG	35 x 25 llath	7 x 12 llath	3	4 x 8 tr	50 mun	15 mun
Dan 10	7 yn erbyn 7	GG	44 x 40 llath	10 x 15 llath	4	6 x 12 tr	60 mun	20 mun
Dan 11	7 yn erbyn 7	GG	44 v 40 llath	10 x 15 llath	4	6 x 12 tr	60 mun	20 mun

- 3.1.2 Dan 6 a 7 – Mae CBDC yn awgrymu defnyddio goliau siâp petryal ond gellir defnyddio goliau pop up (4 troedfedd neu 6 troedfedd).
- 3.1.3 Dylid marcio meysydd chwarae yn unol â'r maint a nodir yn y tabl uchod. Efallai na fydd hyn yn bosibl ym mhob lleoliad. O'r herwydd, caniateir rhywfaint o hyblygrwydd. Ni ddylai meysydd chwarae fod yn fwy na 5 llath o hyd a / neu led.
- 3.1.4 Er mwyn cynorthwyo clybiau i drosglwyddo i'r rheoliadau newydd, dylai cynghreiriaid ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran maint goliau ar gyfer y grwpiau oedran dan 6 i dan 9 oed ar gyfer tymor 2020/2021 yn unig.

3.2 ARDAL Y GÔL

- 3.2.1 Rhaid marcio'r ardal gyda llinellau neu gonau confensiynol ar y llinell ystlys, yn ogystal â nifer fach o ddisgiau marcio ar yr ardal chwarae (cyfeiriwch at 3.1 am feintiau arwynebedd).

3.3 HYD Y CHWARAE

- 3.3.1 Dan 6 a 7 – Ni ddylai gêm bara mwy na 10 munud. Nid oes hanner amser. Er enghraifft, gallai Cynghreiriaid drefnu 4 gêm 10 munud yn unol ag uchafswm hyd y chwarae o 40 munud.
- 3.3.2 Dan 8 a 9 – Ni ddylai gêm bara mwy na 15 munud. Nid oes hanner amser. Er enghraifft, gallai Cynghreiriaid drefnu 5 gêm 10 munud neu 3 gêm 15 munud yn unol ag uchafswm hyd y chwarae o 50 munud.
- 3.3.4 Dan 10 a 11 – Ni ddylai gêm bara mwy nag 20 munud. Dylid cael hanner amser os yw'r chwarae'n hirach na 15 munud. Ni ddylai hanner amser bara mwy na 5 munud. Er enghraifft, gallai Cynghreiriaid drefnu 3 gêm 20 munud neu 4 gêm 15 munud unol ag uchafswm hyd y chwarae o 60 munud.



- 3.3.5 Argymhellir na ddylai chwaraewr Pêl-droed ar Raddfa Lai chwarae'n hirach na'r uchafswm chwarae a nodir yn y tabl uchod mewn cyfnod o 24 awr.
- 3.3.6 Dylai hyfforddwy'r sicrhau mai lles chwaraewyr yw'r brif ystyriaeth wrth hyfforddi, a defnyddio synnwyr cyffredin i sicrhau bod ymarfer yn briodol ar gyfer y plant y maent yn gyfrifol amdanynt.

4. EILYDDION

- 4.1 Gellir defnyddio unrhyw nifer o eilyddion ar unrhyw adeg.
- 4.2 Caiff chwaraewyr ail-ymuno â'r gêm.
- 4.3 Dylai pob chwaraewr yn y garfan gael o leiaf 50% o amser chwarae wrth gymryd rhan mewn gemau.
- 4.4 Dan 6, 7, 8 a 9 – Ni ddylai unrhyw eilydd fod yn aros fwy na 5 munud cyn iddo fod yn rhan o'r gêm.
- 4.5 Dan 10 ac 11 – Ni ddylai unrhyw eilydd fod yn aros fwy na 10 munud cyn iddo fod yn rhan o'r gêm.

5. CIC GYNTAF

- 5.1 Dylid dechrau gêm o ganol y cae chwarae, a'i hail-ddechrau o'r canol ar ôl i gôl gael ei sgorio.
- 5.2 Rhaid i'r gwrthwynebwyr fod o leiaf 3 llath i ffurdd o'r bêl.
- 5.3 Ni chaniateir sgorio gôl yn syth o gic gyntaf y gêm

6. SGORIO 'PÊL I MEWN A PHÊL ALLAN'

- 6.1 Mae Deddfau 9 (Pêl i mewn a phêl allan) a 10 (Y dull sgorio) yn berthnasol i Bêl-droed ar Raddfa Lai.

7. CAMSEFYLL

- 7.1 Nid oes unrhyw gamsefyll (Cyfraith 11) mewn Pêl-droed ar Raddfa Lai.

8. PASIO I MEWN / TAFLU I MEWN

- 8.1 Dan 6, 7, 8 a 9 – Y ffordd i ailddechrau'r chwarae pan fydd y bêl gyfan yn pasio dros y llinell ystlys yw drwy basio'r bêl i mewn.
 - 8.1.1 Rhaid i'r bêl fod yn llonydd o'r pwynt lle gadawodd y cae cyn iddi gael ei chicio i ailgychwyn chwarae.
 - 8.1.2 Ni ddylid cicio'r bêl yn uwch nag uchder y pen.
 - 8.1.3 Ni ddylid sgorio gôl yn syth o'r pwynt hun.
 - 8.1.4 Rhaid i'r gwrthwynebwyr fod o leiaf 3 llath i ffurdd o'r bêl.
- 8.2 Dan 10 a 11 – Caniateir taflu'r bêl i mewn i ailddechrau'r gêm. Er bod Cyfraith 15 (Taflu i Mewn) yn berthnasol ac y dylid taflu i mewn yn y ffordd arferol, gall arweinwyr gemau fod yn hyblyg.

9. CICIAU CORNEL

- 9.1 Mae Deddf 17 (Cic o'r Gornel) yn berthnasol, ond mae'n rhaid i wrthwynebwyr fod o leiaf 3 llath i ffurdd.

10. CICIAU RHYDD

- 10.1 Mae Deddf 12 (Troseddu a Chamymddwyn) yn berthnasol i giciau rhydd, ond mae'n rhaid i wrthwynebwyr fod o leiaf 3 llath i ffurdd.

11. GÔL-GEIDWAID



- 11.1 Caiff y gôl-geidwad afael yn y bêl yn ardal y gôl, ac nid oes cyfyngiadau ar nifer y camau y gallant eu cymryd wrth ddal y bêl.
- 11.2 Caiff y gôl-geidwad adael ardal y gôl, ond ni chaiff afael yn y bêl y tu allan i ardal y gôl.
- 11.3 Wrth afael yn y bêl yn ardal y gôl, gall gôl-geidwaid daflu'r bêl allan o'u dwylo neu gicio'r bêl ar y ddaear, ond wedi hynny mae gan wrthwynebwyr hawl i'w herio. Ni chaniateir ciciau gollung.

12. CICIAU GÔL

- 12.1 Mae'n rhaid i'r bêl fod yn llonydd ac ar y ddaear.
- 12.2 Mae'r bêl yn fyw pan mae'n cael ei chicio a phan mae'n glir ei bod yn symud.
- 12.3 Dan 6 a 7 – Gallant ddigwydd unrhyw le ar linell y gôl.
- 12.4 Dan 8, 9, 10 ac 11 – Gallant ddigwydd unrhyw le o fewn ardal y gôl.
- 12.5 Dan 8, 9, 10 ac 11 – Rhaid i wrthwynebwyr fod y tu allan i'r curt cosbi nes bod y bêl yn cael ei chwarae.
- 12.6 Ym mhob grŵp oedran cyflwynir llinell encilio, a rhaid i wrthwynebwyr fod o leiaf 10 llath i ffurdd o'r pwynt lle cymerir y gic gôl.

13. CHWARAEWYR YN ARDAL Y GÔL

- 13.1 Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran nifer y chwaraewyr a ganiateir yn ardal y gôl yn ystod chwarae agored.

14. PASIO'N ÔL I'R GÔL-GEIDWAD

- 14.1 Dan 8 a 9 – Gall chwaraewyr basio'r bêl i'w gôl-geidwad eu hunain, i'r gôl-geidwad afael y bêl
- 14.2 Dan 10 ac 11 – Ni chaiff chwaraewyr basio'r bêl i'w gôl-geidwad eu hunain, i'r gôl-geidwad afael y bêl.

15. PÊL-DROED AR RADDFA LAI 9 YN ERBYN 9

- Ar gyfer y grŵp oedran dan 12 oed, bydd y fformat 9 yn erbyn 9 yn ddewisol ar gyfer tymor 2020/21 cyn dod yn orfodol o dymor 2021/22.
- Ar gyfer y grŵp oedran dan 13 oed, bydd y fformat 9 yn erbyn 9 yn ddewisol ar gyfer tymor 2020/21 a 2021/2022 cyn dod yn orfodol o dymor 2022/23.

- 15.1 Maint Tîm, Maint Maes Chwarae, Maint Pêl, Maint Gôl a Hyd Gemau

15.1.1 Rhaid gweithredu'n unol â'r tabl hunn:

Grŵp Oedran	Nifer y Chwaraewyr	Gôl Geidwad/ Dim Gôl Geidwad	Maint y Maes Chwarae (hyd x lled)	Ardal y Gôl (hyd x lled)	Maint y Bêl	Maint y Gôl (uchder x lled)	Uchafsum Hyd y Chwarae
Dan 12	9 yn erbyn 9	GG	Blwch 18 llath i flwch 18 llath x 44 llath / neu 64 x 44 llath	12 x 28 llath Smotyn cosb 9 llath	4	7 x 16 tr	70 munud (1 hanner = 35 munud)
Dan 13	9 yn erbyn 9	GG	Blwch 18 llath i flwch 18 llath x 44 llath / neu	12 x 28 llath Smotyn	4	7 x 16 tr	70 munud (1 hanner = 35)



			64 x 44 llath	cosb 9 llath			munud)
--	--	--	---------------	-----------------	--	--	--------


15.2 MAINT Y GARFAN

15.2.1 Gall timau yn y grwpiau oedran dan 12 a 13 gael carfan ar ddiwrnod gêm o hyd at 18 o chwaraewyr, gyda phob un ohonynt yn gymwys i chwarae (gall timau ddefnyddio pob un o'r 9 eilydd – cyfeiriwch at 15.7). Ni chaiff timau arwyddo mwy na 20 chwaraewr.


15.2 Gellir addasu maes chwarae 11 yn erbyn 11 ar gyfer y fformat 9 yn erbyn 9, gan ddefnyddio lled y curt cosbi (44 llath) ar gyfer lled y maes chwarae 9 yn erbyn 9 a'r pellter o'r naill gurt cosbi i'r llall fel hyd y cae 9 yn erbyn 9. Gweler y diagramau isod i gael arweiniad:



MAES CHWARAE PENODOL AR GYFER 9 YN ERBYN 9



9 YN ERBYN 9 AR FAES CHWARAE 11 YN ERBYN 11



15.4 MAINT Y GÔL

15.4.1. Maint y gôl yw 16 troedfedd (lled) x 7 troedfedd (uchder).

15.5 CWRT COSBI AD ARDAL GÔL

15.5.1 Rhaid i'r curt cosbi fod yn 28 llath o led a 12 llath o linell y gôl. Dylai'r smotyn fod 9 llath o linell y gôl.

15.5.2 Nid oes angen ardal gôl, ond mae ciciau gôl i'w cymryd tua 4 llath o linell y gôl. Mae marc 4 llath wedi'i baentio o bob post yn ddigonol ar gyfer arweiniad.

15.4.3 Ar gyfer caeau 9 yn erbyn 9 purpasol, gellir marcio ardal gôl. Dylai fod 4 llath o linell y gôl a 4 llath o bob postyn gôl tuag at y gornel.

15.6 HYD Y GÊM

15.6.1 Ni ddylai gêm fod yn hirach na 70 munud, wedi'i rhannu'n ddau hanner 35 munud. Ni ddylai hanner amser bara mwy na 15 munud.

15.6.2 Os yw cynghreiriau'n gweithredu band oedran dwy flynedd a bod gêm 9 yn erbyn 9 yn cynnwys chwaraewr Blwyddyn 6, ni ddylai gêm bara mwy na 60 munud.

15.7 EILYDDION

15.7.1 Nid oes uchafsum ar y nifer o eilyddion y gellir eu defnyddio, gyda chaniatâd y dyfarnwr. Gall chwaraewr sydd wedi cael ei ddisodli ailymuno â'r gêm.

15.6.2 Dylai pob chwaraewr sydd yn y garfan ar ddiwrnod y gêm gael o leiaf 50% o amser chwarae wrth gymryd rhan mewn gemau.

15.8 CIC GYNTAF

15.8.1 Dylid dechrau gêm o ganol y cae chwarae, a'i hail-ddechrau o'r canol wedi i gôl gael ei sgorio.

15.8.2 Rhaid i'r gwrthwynebwyr fod o leiaf 7 llath i ffurdd o'r bêl.

15.9 SGORIO 'PÊL MEWN A PHÊL ALLAN'

15.9.1 Yn unol â 'Deddfau'r Gêm FIFA' – mae Deddf 9 (Pêl mewn a phêl allan) a 10 (Y dull sgorio) yn berthnasol i Bêl-droed ar Raddfa Lai 9 yn erbyn 9

15.10 CAMSEFYLL

15.10.1 Yn unol â 'Deddfau'r Gêm FIFA' – mae Deddf 11 'Camsefyll' yn berthnasol i Bêl-droed ar Raddfa Lai 9 yn erbyn 9

15.11 TAFLU'R BÊL I MEWN

15.11.1 Yn unol â 'Deddfau'r Gêm FIFA' – mae Deddf 15 'Taflu'r Bêl i Mewn' yn berthnasol i Bêl-droed ar Raddfa Lai 9 yn erbyn 9

15.12 CIC GORNEL

15.12.1 Yn unol â 'Deddfau'r Gêm FIFA' – mae Deddf 17 'Y Gic Gornel' yn berthnasol i Bêl-droed ar Raddfa Lai 9 yn erbyn 9

15.13 CICIAU RHYDD

15.13.1 Yn unol â 'Deddfau'r Gêm FIFA' – mae Deddf 12 'Troseddu a Chamymddwyn' yn berthnasol i Bêl-droed ar Raddfa Lai 9 yn erbyn 9



15.14 GÔL-GEIDWAID

15.14.1 Caiff y gôl-geidwad afael yn y bêl yn ardal y gôl, ac nid oes cyfyngiadau ar nifer y camau y gallant eu cymryd wrth ddal y bêl.

15.14.2 Caiff y gôl-geidwad adael ardal y gôl, ond ni chaiff afael yn y bêl y tu allan i ardal y gôl.

15.14.3 Wrth afael yn y bêl yn ardal y gôl, gall gôl-geidwaid daflu'r bêl allan o'u dwylo neu gicio'r bêl ar y ddaear, ond wedi hynny mae gan wrthwynebwyr hawl i'w herio.

15.14.4 Pasio'n ôl i'r gôl-geidwad – Ni chaiff chwaraewyr basio'r bêl i'w gôl-geidwad eu hunain, i'r gôl-geidwad afael y bêl.

15.15 CICIAU GÔL

15.15.1 Rhaid i'r bêl fod yn llonydd ac ar y ddaear (cyfeiriwch at 15.5.2 ar gyfer lleoliad).

15.15.2 Mae'r bêl yn fyw pan mae hi'n cael ei chicio ac mae'n glir ei bod yn symud.

15.15.3 Mae'n rhaid i wrthwynebwyr aros y tu allan i'r curt cosbi nes bod y bêl yn cael ei chwarae.

15.16 CHWARAEWYR YN ARDAL Y GÔL

15.16.1 Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran nifer y chwaraewyr a ganiateir yn ardal y gôl yn ystod chwarae agored.

15.17 Y DYFARNWR

15.17.1 Mae pob gêm yn cael ei rheoli gan ddyfarnwr sydd ag awdurdod llawn i weinyddu

rheolau Pêl-droed ar Raddfa Lai 9 yn erbyn 9 yn unol â 'Deddfau'r Gêm

FIFA.'

I gael rhagor o wybodaeth am deddfau'r gêm, cyfeiriwch at y ddogfen 'Deddfau'r Gêm FIFA'.

